


Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-2020

CYNNWYS

- 03** Ein strategaeth 2018-21
- 05** Ein blwyddyn mewn rhifau
- 07** Llwyddiannau myfyrwyr
- 11** Prif Weithredwr
- 12** Llywyd yr Undeb
- 13** Ymgysylltiad a bodlonrwydd myfyrwyr
- 14** Ymgysylltiad myfyrwyr 2019-20 yn ôl adran
- 21** Ein themau
- 30** Ein galluogwyr
- 36** Partneriaeth
- 37** Cyllid
- 39** Ymddiriedolwyr 2019-2020 a Staff Uwch

EIN STRATEGAETH 2018-21

Yn 2018, lansiodd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd strategaeth newydd 3 blynedd o hyd, yn gosod blaenoriaethau'r sefydliad a fydd yn cadarnhau safle'r sefydliad wrth galon profiad y myfyrwyr. Mae'r strategaeth nid yn unig yn ffocysu ar greu mwy o gyfleoedd ar gyfer Undeb y Myfyrwyr i gael effaith ar fywydau'r myfyrwyr, mae hefyd yn edrych i ddatblygu profiad blaenllaw, cynhwysol, cysylltiol i fyfyrwyr a dysgwyr, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd.

EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

- Gweithio gyda phob myfyriwr yng Nghaerdydd i wella eu profiad yn y Brifysgol.

EIN GWERTHOEDD

- Arweinyddiaeth Myfyrwyr
- Cynhwysiad
- Partneriaeth
- Amrywioldeb



EIN DIBEN



Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cyfoethogi addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu cwrs a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr;
- Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gorff allanol arall; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden, yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth a dadlau ar gyfer datblygiad personol ein myfyrwyr.

EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

GWOBRAU

Fe wnaethon ni gyflawni rhai pethau eithaf anhygoel!

Wedi cyflawni achrediad 1* ac wedi ei lleoli yn safle 56 yn 100 sefydliad nid er elw gorau'r Sunday Times 2020.

Rhestrwyd ni yn 65ed yng 100 uchaf y mynegai National Centre for Diversity (NCFD)

Wedi ein hethol ymysg y 3 Undeb Myfyrwyr gorau yng Ngwobrau WhatUni Student Choice Awards 2020.



Wedi'i gynnwys yn rhestr 30 uchaf y Cwmnïau Gorau i Weithio iddynt yng Nghymru 2020.
Undeb Myfyrwyr y Flwyddyn yng Nghymru yng Ngwobrau UCM Cymru am yr 2il flwyddyn.

DIGIDOL A CHYFRYNGAU SWYDDI A SGILIAU CYMDEITHASOL

Cynnydd o **27%** o ddilynwyr Instagram

522,600 argraffiadau trydar

36,510 yw'r nifer o weithiau y cafodd ap bwyd a diod ei lawrlwytho

3.7k o ddefnyddwyr newydd ar Facebook

6,185,024 o ymweliadau i'r wefan



Darparodd y Siopswyddi **115,815** awr o waith â thâl hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020, cynnydd o dros **12,500** o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Mynychodd **224** o staff myfyrwyr hyfforddiant i ymuno



DEMOCRATIAETH

Cynnydd o **37%** mewn presenoldeb yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol



Pleidleisiodd **6,126** o fyfyrwyr yn ein Etholiadau Gwanwyn

Cyflwynwyd **3,858** o gardiau Wythnos Siarad yn cynnwys 7,897 o sylwadau gan fyfyrwyr.

CYNRYCHIOLAETH

Gwnaethom hyfforddi a chefnogi **980** o Gynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr.



CYMORTH A CHYNGOR

Derbyniodd **6,633** o fyfyrwyr unigol gyngor ac arweiniad gan ein tîm Cyngor i Fyfyrwyr

Cofrestrwyd **117** o Swyddogion Lles Cymdeithasau i helpu myfyrwyr yn eu grwpiau.

Cafodd **450** o fyfyrwyr newydd eu paru â bydis fel rhan o'n Cynllun Cyfeillio.

MASNACHOL


Cynhaliodd Gosod Myfyrwyr Caerdydd **15%** yn fwy o arddangosfeydd.

Cafodd Love Cardiff **860** o archebion ar ôl datblygu'r siop ar-lein yn ystod Covid-19 gan leihau maint y tarfu ar fyfyrwyr a chwsmeriaid.



AMGYLCHEDD

Rydym wedi plannu **467** o goed trwy newid i beiriant chwilio Ecosia.



HWYL



Cyrhaeddodd presenoldeb yn ein nosweithiau clwb **108,296**, cynnydd o **5%**!


Cynyddodd ymgysylltiad Rho Gynnig Arni yn semester Hydref 2019 o **11%** o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018.

Cofnododd yr Undeb Athletaidd record o 86 tîm i gynghreiriau BUCS gan ganiatáu i dros **1,100** o fyfyrwyr gynrychioli ein Clybiau Chwaraeon.



CYMUNED

Gwirfoddolodd **1,137** o fyfyrwyr eu hamser i brosiectau Gwirfoddoli Caerdydd.





TIM SWYDDOGION
SABOTHOL 2019-2020

LLWYDDIANNAU MYFYRWYR

Bob blwyddyn, mae tîm o fyfyrwyr yn cael eu hethol i gynrychioli eu cyd-fyfyrwyr a'u diddordebau academiaidd. Tîm y Swyddog Sabothol yw'r myfyrwyr hyn, ac maent yn gweithio ar lawer o brosiectau trwy gydol y flwyddyn, o lobio'r Brifysgol i newid a gwella'r pethau y mae myfyrwyr yn poeni amdanynt fel oriau agor llyfrgelloedd a gofod astudio ychwanegol, ac ymgyrchu ar y materion sydd o bwys.

LLWYDDIANNAU MYFYRWYR 2019-20

- Ychwanegwyd microdonnau a thegelli mewn mannau astudio a sicrhau bod mwy o ffynhonnau dŵr yn cael eu gosod ar draws y campws.

👍👍 **1 i lawr, 3 i fynd!** Yn seiliedig ar eich adborth, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol i osod ffynhonnau dŵr ychwanegol yn y Mynydd Bychan felly nawr gallwch ail-lenwi'ch poteli o amgylch y campws yn hytrach na phrynu rhai plastig un-tro. Llwyddiant

mawr i chi a'r amgylchedd!

- Sicrhau cyllid £10k ar gyfer ymgyrch Tlodi Mislif.

👍👍 **Rydyn ni'n darparu tampons yn ein Canolfan Groeso yn rhad ac am ddim i'r holl fyfyrwyr. Rydyn ni'n gwybod bod mislif yn rhan naturiol o fywyd ac rydyn ni'n gobeithio y gwnaiff hyn bethau ychydig yn haws.**

- Ennill Undeb y Myfyrwyr Cymru y Flwyddyn yng Ngwobrau UCM Cymru am yr 2il flwyddyn yn olynol!
- Ymestyn oriau agor y Lolfa IV.



LLWYDDIANNAU MYFYRWYR

👍👍 Fe wnaethon ni wrando ar eich adborth ac rydyn ni'n falch o gyhoeddi ein bod ni wedi cynyddu uchafswm niferoedd yn ein clwb nos, gofod cymdeithasol a gofod gweithgareddau chwaraeon a chymdeithas trwy aildatblygu ac agor y llawr cyntaf.

- Cyflwyno Swyddogion Lles ar gyfer Pwyllgorau Cymdeithas, er mwyn sicrhau bod gan fyfyrwyr strwythur ataliol arall i gefnogi eu lles.

👍👍 Fe wnaethon ni gofrestru 117 o Swyddogion Lles mewn Cymdeithasau

- Chwyldroi hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr a Phwyllgorau Cymdeithasau, a dyfnhau y sgwrs ddwyffordd rhyngddynt ac Undeb y Myfyrwyr.



👍👍 Yn dilyn adborth gan Aelodau'r Pwyllgor yn Ffeiriau'r Glas y llynedd ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, rydym wedi creu system band arddwrn i wella profiad myfyrwyr sy'n rhedeg stondinau Ffair eleni.

LANSIWYD

- Mentrau ailgylchu newydd a mabwysiadu gorsaf Cathays i greu gorsaf eco-gyfeillgar.
- Uwchgynhadledd Diogelwch Caerdydd newydd - uno holl fyfyrwyr Caerdydd trwy brosiect cydweithredol gan gynnwys pedwar Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Heddlu De Cymru.
- Lansio ymgyrch cydweithredol tlodi bwyd gydag Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru.
- Dechrau brwydr Undeb y Myfyrwyr yn erbyn yr Argyfwng Hinsawdd trwy lansio Tasglu Argyfwng Hinsawdd Undeb y Myfyrwyr i leihau effaith amgylcheddol yr Undeb.

LLWYDDIANNAU MYFYRWYR



- Gwell hygyrchedd i wybodaeth Parc y Mynydd Bychan ar-lein trwy greu eicon Parc y Mynydd Bychan ar dudalen flaen y wefan a threfnu Ffeiriau'r Glas a Digwyddiad Varsity y Meddygon mwyaf (gyda mynediad am ddim i bawb) mewn hanes.
- Datblygu Cyfnod y Refreshers', gan gynnal Ffair lawn ar gyfer gweithgareddau myfyrwyr, a welodd gynnydd sylweddol mewn lefelau ymgysylltu.
- Addasu i reoliadau Covid-19 a chynnal Dawns Wobrwyo rhithwir, i ddathlu llwyddiannau grwpiau myfyrwyr ac arweinwyr trwy gydol y flwyddyn
- Cefnogi 3,000 o fyfyrwyr yn ystod arholiadau'r gwanwyn gyda Chymorth Adolygu
- Trefnu digwyddiadau mawr i gefnogi trosglwyddiad myfyrwyr Rhaglen Iaith Saesneg i Gaerdydd
- Cyflwyno Hyfforddiant Atal Hunanladdiad i 589 o fyfyrwyr, gyda'r nod o wneud Caerdydd yn Brifysgol wedi ei diogelu mwy rhag hunanladdiad.

LOBIO A CHYDWEITHIO AR:

- Cefnogi'r Undeb a'r Brifysgol i ymateb i COVID-19:
 - » Lobio darparwyr neuaddau preifat i ryddhau myfyrwyr yn gynnar o gontractau a chydlynu lobi Llywydd Undeb Caerdydd ar asiantaethau gosod preifat a landlordiaid.
 - » Amddiffyn buddiannau myfyrwyr mewn Neuaddau Preswyl Prifysgol
 - » Wedi gweithio gyda'r Brifysgol i wella'r polisi amgylchiadau esgusodol a sicrhau bod asesu ac adborth yn deg yn ystod y cyfnod hwn.
 - » Goruchwyliaeth strategol o'r holl grwpiau cynllunio COVID.
- Lobio'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Tai ar wella tai myfyrwyr preifat.
- Sefyll dros a siarad am bryder myfyrwyr yn ystod y cyfnod Gweithredu Diwydiannol.
- Cyflwyno achos busnes a lobio'r Brifysgol i adnewyddu'r toiledau wrth ymyl y Lolfa IV (llawr gwaelod, adeilad Neuadd Meirionnydd).

LLWYDDIANNAU MYFYRWYR

- Sicrhau argraffu rhad ac ddim ar gyfer Traethodau Hir Gradd Meistr
- Cydweithio â'r tîm Llyfrgelloedd i gynnal y Llyfrgell Wyddoniaeth.
- Newid gorwel y campws am byth trwy lofnodi prosiectau cyfalaf gan gynnwys adeilad newydd ABACWS.
- Wedi gweithio ar gyflwyno'r Polisi Rhwyd Diogelwch.



PRIF WEITHREDWR

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn wahanol i unrhyw un arall yn hanes modern oherwydd Covid-19, gyda'r ddwy her o addasu sut rydym yn cefnogi myfyrwyr Caerdydd, wrth geisio amddiffyn y sefydliad rhag effaith ariannol o ganlyniad i ddirywiad enfawr mewn incwm.

Hyd at fis Mawrth 2020 roedd blwyddyn academiaidd 2019/20 yn mynd yn dda iawn, gyda llwyddiant ymgysylltu parhaus, cydnabyddiaeth o'n gwaith trwy sawl gwobr a chynllunio ar gyfer agor y Ganolfan Bywyd Myfyrwyr yn 2021. Roedd yr Undeb hefyd ar y trywydd iawn i fynd tu hwnt i'r swm o £12M mewn incwm am y tro cyntaf. Pan ddechreuodd y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 roeddem wedi cwblhau'r mwyafrif helaeth o'r masnachu a'r ymgysylltu y byddem fel arfer yn ei wneud yn ystod y flwyddyn, felly nid oes fawr o effaith weladwy i'w weld yn yr adroddiad hwn oherwydd cau yn ystod rhan dawelaf y flwyddyn i bob pwrpas. Fodd bynnag, bydd 2020/21 yn dangos effaith y pandemig ar ein perfformiad ac rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer effeithiau hynny ers cryn amser.

Wrth fynd i'r pandemig roedd yr Undeb yn cyflawni llwyddiant digynsail, fel y manylir ymhellach yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnal ein lle fel un o'r Undebau Myfyrwyr gorau yn y DU, ymgysylltu â'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr a chynyddu ansawdd a maint y gefnogaeth les a ddarperir i'n haelodau yn aruthrol. Enillodd yr Undeb wobwr Undeb Myfyrwyr

y Flwyddyn yng Nghymru am yr eildro yn olynol, cynhaliodd ei le fel arweinydd cydnabyddedig ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadol ac fe'i henwyd yn un o'r 30 cyflogwr gorau yng Nghymru.

Wrth edrych ymlaen, mae gennym lawer o resymau i gredu y byddwn yn dod allan o'r pandemig mewn sefyllfa gref ac yn barod i wella profiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ymhellach. Yn ariannol, mae gan yr Undeb gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio i atal colled sylweddol i ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr tra bod bywyd yn dychwelyd i normal, rydym wedi bachu ar y cyfle yn ystod y cyfnod clo i wella ein hamgylchedd ffisegol ar gyfer myfyrwyr a grwpiau myfyrwyr a chydag agor y Ganolfan ar gyfer Bywyd Myfyrwyr yn 2021 rydym yn hyderus y bydd ein cynnig, ynghyd â'n cydweithwyr a'n partneriaid yng ngweddill y Brifysgol, yn arwain y sector. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen yr adroddiad hwn ac y gallwch chi weld beth mae ein staff a'n myfyrwyr gwirfoddol yn ei wneud i wneud profiad myfyriwr Caerdydd y gorau y gall fod.

Daniel Palmer
Prif Weithredwr



LLWYDD YR UNDEB

Yn aml mae'n hawdd myfyrio ar flwyddyn academiaidd a siarad am sut roedd hi'n "flwyddyn o lwyddiannau a methiannau", ond rwy'n credu y byddai pawb yn cytuno y bydd 2019-20 yn flwyddyn sy'n cael ei chofio am gynnwrf sylweddol ac am achosi aflonyddwch i addysg a'r gymdeithas ehangach nag erioed o'r blaen.

Cyflawnwyd y tymor cyntaf â llawer o uchafbwyntiau a llwyddiannau i fyfyrwyr. Torrwyd record gyda gweithgaredd Wythnos y Glas, sicrhawyd £10k i ddarparu cynnyrch misliff rhad ac am ddim a sefydlu Uwchgynhadledd Diogelwch ledled y ddinas i weithio gyda phartneriaid allanol i wella diogelwch myfyrwyr. Dyma flas yn unig o holl lwyddiannau balch Undeb y Myfyrwyr. Gallwch ddarllen mwy o'r llwyddiannau myfyrwyr ffantastig hyn o dudalen saith.

O fis Ionawr, daeth newyddion o firws hynod heintus, ac ym mhen deufis daeth y cyfnod clo cenedlaethol, dysgu ar-lein, ac oedi ar bopeth yn ymwneud â phrofiad y myfyrwyr. Rydw i'n falch o'r gwaith o gynrychioli myfyrwyr a gyflawnwyd drwy gydol y cyfnod hwn, yn lobio dros fuddiannau myfyrwyr i fod wrth galon bob penderfyniad. Codwyd materion allweddol gan gynnwys cael deiseb fyfyrwyr gael eu rhyddhau o gontractau yn fuan, gwella polisi amgylchiadau esgusodol a datblygu asesu teg a pholisi Rhwyd Diogelwch yn ystod y cyfnod hwn.

Rydw i hefyd yn falch o ymateb ein sefydliad, addasodd ein staff i gynnig ein gwasanaethau cefnogi myfyrwyr anhygoel o gartref, gan sicrhau bod ein cyngor a'n cynrychiolaeth yn gallu cael ei drosglwyddo yn ddigidol i fyfyrwyr ac addasu i newidiadau dramatig gyda gwydnwch.

Mae ein Corff Myfyrwyr hefyd wedi bod yn hynod gryf ac amyneddgar yn ystod y cyfnodau heriol hyn ac rydym wedi gweld rhai ffyrdd o adeiladu cymunedol rhyfeddol o greadigol hyd yn oed gyda chyfyngiadau llym ar waith.

Mae'n amlwg y bydd Covid-19 yn cael effaith ar y flwyddyn academiaidd 20-21, ond yn union fel yr ydym wedi'i wneud eleni, byddwn yn addasu ac yn parhau i ddadlau dros fuddiannau ein myfyrwyr trwy gydol yr heriau sydd i ddod.

Tom Evans
Llywydd Yr Undeb 2020-21



YMGYSYLLTIAD A BODLONRWYDD MYFYRWYR



DATA YMGYSYLLTU


Ein gweledigaeth yw gweithio gyda phob myfyriwr yng Nghaerdydd i wella eu profiad Prifysgol. Mae ein lefelau o ymgysylltiad myfyrwyr â'n gweithgareddau a'n gwasanaethau yn adlewyrchu ein cynnydd wrth gyflawni'r weledigaeth hon. Yn 2019-20, arhosodd ymgysylltiad myfyrwyr, cyfranogiad mewn gweithgareddau a boddhad cyffredinol yn uchel, a chyn i weithgareddau gael eu gohirio oherwydd Covid-19, roedd Undeb y Myfyrwyr ar y trywydd iawn am flwyddyn o dorri recordiau mewn sawl maes.

Er gwaethaf cau gweithgareddau a gwasanaethau personol yn gynnar, cafodd yr Undeb 50,806 ymgysylltiad (gostyngiad o 18.5% ers 18-19) gan 21,658 o fyfyrwyr (gostyngiad o 3% ers 18-19). Roedd yr ymyrraeth annisgwyl i'n gwasanaethau yn golygu bod ymgysylltiad myfyrwyr wedi gostwng am y tro cyntaf mewn 7 mlynedd. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y byddai ymgysylltu heb Covid-19 wedi cael ei gynnal o leiaf ar y lefel a ddangosir yn 18-19 gyda thri chwarter holl fyfyrwyr Caerdydd â pherthynas â'r Undeb. Mae'n anodd gwneud cymariaethau gyda undebau myfyrwyr eraill, ond rydyn ni'n credu bod ein lefelau ymgysylltu ymysg yr undebau myfyrwyr uchaf yn y DU.

BODDHAD

Mae Undeb y Myfyrwyr yn blaenoriaethu boddhad myfyrwyr ac yn gosod targedau estynedig i wella'n barhaus. Rydym yn olrhain boddhad gan aelodau ein myfyrwyr trwy fesurau mewnol ac allanol, ac rydym yn defnyddio'r adborth a gesglir i lunio ein gweithgareddau a'n gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ni gyhoeddodd lawer o gyrff allanol ganlyniadau annibynnol boddhad myfyrwyr oherwydd yr ymyrraeth a achosodd Covid-19 yn ystod cyfnod o'r flwyddyn pan fyddai llawer o'r ymchwil wedi bod yn digwydd. Fodd bynnag, gwnaethom gynnal ein lle fel y 3ydd Undeb Myfyrwyr gorau yn y DU yn ôl Gwobrau WhatUni Student Choice Awards 2020, a ni oedd y 3ydd Undeb Myfyrwyr uchaf o fewn y Grŵp Russell yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol.

YMGYSYLLTIAD MYFYRWYR 2019-20 YN ÔL ADRAN



EIN HADRANNAU A GWASANAETHAU

TÎM RHEOLI STRATEGOL

Mae ein staff anhygoel wedi eu harwain gan y Prif Weithredwr a Thîm Rheoli Strategol ehangach sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogiad a'r Cyfarwyddwr Arian.

YMGYSYLLTIAD A CHYFRANOGIAD MYFYRWYR

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad Myfyrwyr yn hwyluso gweithgareddau gan gynnwys chwaraeon, cymdeithasau, gwirfoddoli, democratiaeth, cynrychiolaeth, cefnogaeth a lles yn Undeb y Myfyrwyr. Mae'r gwaith a ymgwymerir yn yr ardaloedd hyn wedi cael effaith parhaus ar brofiad y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gweithgareddau

Mae'r adran weithgareddau wastad yn chwarae rôl sylweddol wrth ehangu profiad y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r tîm yn hwyluso gweithgaredd dros 200 o gymdeithasau, 66 clwb chwaraeon, pedwar adran o gyfryngau myfyrwyr, ein rhaglen Rho Gynnig Arni a mwy na 25 prosiect gwirfoddoli. Mae dros 14,000 o fyfyrwyr unigol yn ymwneud â'r weithgaredd

hon bob blwyddyn sy'n gwneud yr adran yn un deinameg a chyffrous i fod yn rhan ohoni. Mae gweithgaredd allgyrsiol yn rhan hynod bwysig o fywyd myfyrwyr, ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol, ac rydyn ni'n hynod falch o'r hyn rydyn ni'n ei gynnig yma yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Gwelodd ein rhaglen Rho Gynnig Arni gynydd o 11% mewn ymgysylltiad dros Semester yr Hydref o'i gymharu ar un cyfnod yn 2018.

Gwirfoddoli Caerdydd

Mae tîm Gwirfoddoli Caerdydd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr gydag amrywiaeth eang o brosiectau gwahanol a chyffrous. Drwy adeiladu perthnasau cryfion gydag elusennau a sefydliadau lleol a chenedlaethol, maent yn gallu lleoli myfyrwyr mewn prosiectau gwirfoddoli o fewn ac o gwmpas y gymuned leol. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu prosiectau gwirfoddoli eu hunain, ac yn cynnal digwyddiadau a mentrau codi arian drwy gydol y flwyddyn.





👍👍 **Darparodd y prosiect Bare Necessities 500 bag rhoddion i Gwpan Pêl-droed Digartref y Byd haf diwethaf gan roi mynediad at eitemau eitemau urddas gwerthfawr ac angenrheidiol i'r rheiny mewn angen.**

Siopswyddi

Mae'r Siopswyddi yn gyfrifol am ddarparu pob math o waith rhan-amser a thymor byr ar gyfer ein myfyrwyr sy'n gweithio o amgylch eu hastudiaethau. Mae'n cynrychioli gwasanaeth allweddol i lawer o fyfyrwyr, nid yn unig fel ffynhonnell o incwm ychwanegol, ond hefyd yn nhermau profiad gwaith gwerthfawr a fydd yn ehangu eu cyflogadwyedd ar gyfer y dyfodol.

👍👍 **Cynyddodd y Siopswyddi y nifer o enwebiadau Prifysgol Caerdydd ar gyfer gwobrau Myfyriwr sy'n Gweithio Y Flwyddyn o 6 enwebiad yn 2019 i 27 yn 2020.**

Gwasanaeth Datblygu Sgiliau

Mae'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau yn darparu myfyrwyr gydag amrywiaeth o gyrsiau a sesiynau hyfforddi wedi'u cynllunio i adeiladu hyder, gwella sgiliau trosglwyddadwy a chynyddu cyflogadwyedd. Mae ein tîm yn cynnwys staff gyrfa llawn-amser a myfyrwyr sy'n hyfforddi eu cyfoedion.

Cyngor i Fyfyrwyr

Mae'r adran Cyngor i Fyfyrwyr yn cynnig canllaw cyfrinachol, annibynnol, diduedd yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r gwasanaeth yn galluogi myfyrwyr gyda gwybodaeth gwrthrychol, ac yn esbonio opsiynau, fel y gallant wneud penderfyniadau a fydd o fudd iddynt. Mae'r tîm hefyd yn bresennol ac yn cynrychioli myfyrwyr yn ystod gweithdrefnau disgyblu a rheoleiddio y Brifysgol.

👍👍 **Yn ystod 2019-20, 6,633 derbyniodd myfyrwyr unigol gyngor/canllaw, gan gynrychioli 25% o gynydd o'i gymharu gyda'r un cyfnod yn 2018-19.**

Llais y Myfyriwr

Mae'r Adran Llais y Myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr Prifysgol Caerdydd er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael eu clywed; o'r system Cynrychiolaeth Academiaidd, gwasanaethau democrataidd, polisiau ac ymgyrchoedd, i ddarparu cefnogaeth i'r Tîm Swyddogion Etholedig. Mae'r adran hon yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol ac UCM er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr gael eu cynrychioli.

MASNACHOL

Mae gweithgareddau'r Undeb yn cael eu rheoli o fewn grŵp o dri cwmni, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC), Gwasanaethau Cyfyngedig Undeb Caerdydd (GCUC) a Gwirfoddoli Caerdydd (GC). Mae UMPC yn gwmni elusenol, sy'n derbyn cyllid drwy weithgaredd masnachol sy'n mynd tuag at ddarparu'r gwasanaethau eraill y mae Undeb y Myfyrwyr yn ei gynnig i fyfyrwyr. Yn ogystal ag gweithredu ein asiantaeth gosod ein hunain, mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnal clwb nos a lleoliadau miwsig byw, tafarn, safleoedd arlwyio, siop ddillad a Swyddfa Bost.



Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd

Agorodd Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd yn 2006 ac ymysg un o'r asiantaethau gosod cyntaf i fod yn eiddo i Undeb Myfyrwyr neu Brifysgol yn y DU. Y prif nod oedd i ddarparu gwasanaeth tai rhad ac am ddim i fyfyrwyr drwy beidio codi ffioedd asiantaethau gosod, ac i weithio â landlordiaid er mwyn gwella ansawdd a safon lletai myfyrwyr.

👍👍 Yn 2019-20, cynhaliodd Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd 15% yn fwy o arddangosiadau gyda myfyrwyr a chynyddu'r nifer o dai y maent yn eu rheoli o 15%.

Caru Caerdydd

Caru Caerdydd yw siop poblogaidd Undeb y Myfyrwyr, yn cynnig nwyddau ag enw Prifysgol Caerdydd arnynt, offer swyddfa ac anrhegion. Mae hefyd yn gartref i Swyddfa Bost.

Lleoliadau

Mae'r Adran Lleoliadau yn croesawu cannoedd ar filoedd o gwsmeriaid drwy ddrysau Undeb y Myfyrwyr ac yn siop un stop ar gyfer adloniant myfyrwyr. Yn ogystal â chynnig bwyd a diod o radd



dosbarth cyntaf a chynnal calendr llawn o adloniant, maent hefyd yn cyflogi bron i 300 o staff myfyrwyr rhan-amser.

👍👍 Cynyddodd tîm y Lleoliadau nifer presenoldeb o 5% i'r nifer anferthol 108,296 o fyfyrwyr diolch i'r cynydd mewn gofod ar gyfer ystod digwyddiadau a ddarparwyd gan y gofod newydd ar y llawr 1af.

Parc y Mynydd Bychan

Ein Undeb Myfyrwyr yn y Mynydd Bychan yw ein hail gampws wedi ei gysegru i'n myfyrwyr sy'n astudio ar safle ysbyty ym Mharc y Mynydd Bychan, yn darparu gweithgareddau a chefnogaeth i'r myfyrwyr hynny.

GWASANAETHAU CYMORTH

Yn ogystal â'n timau sy'n wynebu myfyrwyr a'n gwasanaethau masnachol, mae gan y sefydliad nifer o dimoedd cefnogi sy'n gweithio'n fewnol gyda staff a gwasanaethau er mwyn eu cefnogi yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Gwasanaeth Cwsmer a Gwerthu

Mae'r Adran Gwasanaeth Cwsmer a Gwerthu yn rheoli taith y cwsmer ar gyfer ein holl aelodau. Maent yn gyfrifol am ffurfiant a gweithredu safonau gwasanaeth cwsmer ar draws y sefydliad a goruchwyllo y partneriaethau hysbysebu a cheisiadau am nawdd.

Cyfleusterau a TG

Mae'r Adran Cyfleusterau a TG yn dîm craidd canolog yn Undeb y Myfyrwyr. Mae'r adran hon yn cwmpasu gwasanaethau caled (Cynnal a chadw yr adeilad a phrosiectau adeiladu), gwasanaethau meddal (glanhau) a chefnogaeth TG i adrannau a gwasanaethau o fewn yr adeilad.

👍👍 **Yn 2019-20, cyflwynodd y tîm Cyfleusterau peiriant chwilio gwahanol ar barth UMPC o'r enw Ecosia. Helpodd hyn i ni gyllido plannu 467 o goed!**

Swyddfa Gweithredol

Mae'r Swyddfa Gweithredol yn gyfrifol am oruchwyllo a hwyluso swyddogaethau llywodraethu y sefydliad, yn ogystal â chefnogi y tîm Swyddogion Sabothol a'r Prif Weithredwr yn eu rolau.

Cyllid

Mae'r Adran Gyllid yn dosbarthu'r swyddogaeth cyfrifon ar gyfer Undeb y Myfyrwyr a'i is-gwmnïau masnachu. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau o gadw cyfrifon syml i ddarparu gwybodaeth a chynorthwyo rheolwyr wrth wneud penderfyniadau strategol.

Adnoddau Dynol

Mae ein Hundeb Myfyrwyr yn anelu i recriwtio staff rhagorol gydag lefel uchel o sgiliau, galluedd, nodweddion personol i rannu a llwyddo eich ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i fyfyrwyr. Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cefnogi dros 100 o staff gyrfa sy'n ymgymryd a amrywiaethau eang o rolau.

👍👍 **Yn ystod 2020, rhestrwyd ni yn rhif 56ain ar restr Top 100 Best Not-for-Profit Organisations – naid o'r 96fed safle yn 2019!**

Marchnata a Chyfathrebu

Mae gan yr Adran Farchnata a Chyfathrebu y swydd gyffrous o yrru cyfathrebu rhwng Undeb y Myfyrwyr ac ein 30,000+ o aelodau myfyrwyr. Maent hefyd yn gyfrifol am farchnata y

pethau anhygoel y mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ei wneud mewn ffordd greadigol ac arloesol, yn arwain ymchwil i ddeall beth mae myfyrwyr eisiau, a datblygu ein brand ac is-frandiau.

Data a Datblygiad Gwe

Mae'r Adran Datblygiad Gwe a Diogelu Data yn darparu'r gefnogaeth a wybodaeth dechnolegol er mwyn sicrhau bod ein gwefan a gwasanaethau yn ymwneud â'r we yn cael eu rhedeg yn ddiogel a greddfol. Mae'r adran hefyd yn gyfrifol dros reoli y platfform mwyaf ym-gysylltiol, 'cardiffstudents.com'.





EIN THEMAU

EIN THEMAMAU

WRTH GALON BYWYD MYFYRWYR



Cynnal ein lle wrth galon bywyd myfyrwyr a pharatoi tuag at Canolfan Bywyd y Myfyrwyr.

EIN DATBLYGIAD

Mae bob myfyrwr yn ymwybodol o'r cymorth, cefnogaeth ac arweiniad y gallant ei dderbyn gan yr Undeb, y Brifysgol ac eraill.

Gwelodd 2019-20 gynnydd mawr mewn myfyrwyr yn derbyn cyngor, cynrychiolaeth a chefnogaeth. Derbyniodd 6,633 o fyfyrwyr unigol gyngor/arweiniad gyda 8,420 o achosion. Mae hyn yn 1,400 yn fwy o fyfyrwyr (cynnydd o 25%) o'i gymharu a'r un cyfnod yn 2018-19. Mae hyn hefyd yn dair gwaith y nifer o gleientiaid a aeth i gyrchu cyngor gan Gyngor i Fyfyrwyr 5 mlynedd yn ôl.

Mae ein hadran Cyngor Myfyrwyr wedi parhau i dyfu eu cylch gwaith allgymorth lles. Yn 2019-20, fe wnaethant recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo 50 aelod parhaol ar gyfer y Pwyllgor

Gwaith Cyngor a Lles er mwyn rheoli ymholiadau ac i ddarparu cefnogaeth cyfoedion. Mae miloedd o fyfyrwyr ychwanegol wedi cael eu gweld drwy Gyngor i Fyfyrwyr gan y Pwyllgor Gwaith ac wedi derbyn cefnogaeth.

Cefnogwyd 50 aelod pwyllgor i weinyddu ein 9 Gwasanaeth dan Arweiniad Myfyrwyr sy'n ymwneud â meysydd lles fel ymwybyddiaeth iechyd rhywiol, cymorth alcohol a sylweddau, tai a lles meddyliol. Mae miloedd o fyfyrwyr wedi cyrchu a defnyddio gwasanaeth dan arweiniad myfyrwyr fel galw'r Llinell Nos, defnyddio cynllun cardiau C YMCA ar gyfer condomau am ddim gan SHAG neu wedi mynychu grŵp cymorth Student Minds.

Hefyd, cyflwynodd yr adran Cyngor i Fyfyrwyr 30 o weithdai i 500 o fyfyrwyr ar bynciau yn amrywio o Ymyrraeth Gwylwr, i hyfforddiant REACT, ac Atal Hunanladdiad. Mae'r gweithdai

hyn yn helpu i gefnogi lles myfyrwyr a gwella diogelwch eu cymuned.

Mae ein gwasanaeth Datblygu Sgiliau hefyd wedi adeiladu rhaglen o sesiynau sy'n canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a gwelsant gynnydd o 50% yn nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau'r rhain yn 2019-20.

Bydd adeilad y Ganolfan Bywyd Myfyrwyr yn agor yn 2020..

Mae'r Ganolfan Bywyd Myfyrwyr yn brosiect a arweinir gan wasanaeth a ddarperir mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr, a hwn yw'r uwchraddiad campws mwyaf mewn cenhedlaeth. Bydd y Ganolfan yn darparu cartref newydd i wasanaethau cymorth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd sy'n cynnig lleoedd astudio cymdeithasol ychwanegol, ystafelloedd ymgynghori, awditoriwm mawr a gofodau tawel.

Roedd y gwaith adeiladu a ddigwyddodd i ddechrau yn caniatáu i brif fynedfa Plas y Parc i Undeb y Myfyrwyr aros yn ei le. Tua diwedd 2019, agorwyd mynediad dros dro newydd i Undeb y Myfyrwyr ac roedd yn cynrychioli cyfnod o aflonyddwch i'r sefydliad a'n myfyrwyr. Er mwyn lleihau'r effaith, mae'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu wedi gweithio ar gyfathrebu,

arwyddion ac adborth effeithiol i fyfyrwyr i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod o newid hwn.

Mae'r prosiect hwn yn parhau i fynd rhagddo, gyda dyddiad cwblhau disgwyledig newydd, sef Medi 2021.

Mae 80% o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau a'n gwasanaethau yn ystod eu hamser yn y Brifysgol



EIN THEMau

CARTREF LLAIS Y MYFYRWYR



Fe fyddwn yn datblygu ein rôl fel cartref llais y myfyrwyr, meithrin ein perthnasau ar draws y Brifysgol ac ehangu cyfathrebu gydag ein rhanddeiliaid.

Mae ein myfyrwyr yn teimlo'n fwy grymus a sicr y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed

Mae ein hymgyrch Wythnos Siarad flynyddol yn parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gwelsom gynnydd mewn cardiau Wythnos Siarad a gwblhawyd sy'n golygu ein bod yn clywed mwy am brofiad myfyrwyr gan ein haelodau nag erioed o'r blaen. Cwblhawyd cyfanswm o 3,858 o gardiau yn cynnwys 7,897 o sylwadau unigol yn darparu sylfaen gadarn o ymchwil ar gyfer ein Argymhelliad Ysgrifenedig Myfyrwyr blynyddol a gynhyrchir gan y tîm Swyddogion Sabothol. Eleni, ailenwyd y cyflwyniad yn 'Daliadau'r Myfyrwyr' a ddarparodd argymhellion cynhwysfawr wedi eu harwain gan ddata i'r

Brifysgol ynghylch gwelliannau yr oedd myfyrwyr yn eu ceisio o'u profiad Prifysgol.

Bu'n flwyddyn gadarn i Ddemocratiaeth Myfyrwyr, ond gyda gweithredu diwydiannol yn digwydd ar draws y campws yn ystod wythnos bleidleisio Etholiadau'r Gwanwyn, gwelsom ostyngiad yn nifer y pleidleiswyr i 6,126 o fyfyrwyr. Gwelsom gynnydd o 37% yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd lle daeth 871 o fyfyrwyr i fwrw eu pleidleisiau.

Bydd 80% o fyfyrwyr yn fodlon ein bod yn cynrychioli eu buddiannau academiaidd

Bob blwyddyn, mae'r Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr yn gofyn i fyfyrwyr blwyddyn olaf i raddio faint y maent yn cytuno a'r datganiad "Mae Undeb y Myfyrwyr (cymdeithas neu urdd) yn cynrychioli diddordebau academiaidd myfyrwyr yn effeithiol." Yn arolwg 2020, cytunodd 64% o fyfyrwyr blwyddyn olaf fod yr Undeb wedi cynrychioli eu diddordebau academiaidd, cynnydd o 2% ers 2019

Mae cyfathrebiadau'r Undeb â myfyrwyr yn cael eu llywio gan ddata o ansawdd uchel, yn cael eu segmentu'n ddeallus ac wedi'u teilwra i anghenion myfyrwyr o fewn eu cylch bywyd.

Datblygodd ein Hadran Gwe a Data system newydd i fewnforio cofnodion data myfyrwyr trwy API, sydd wedi golygu bod meysydd gwybodaeth wedi cynyddu i gynnwys gwybodaeth am gyrsiau myfyrwyr ac wedi arwain at fwy o gywirdeb mewn meysydd fel targedu olrhain cyfathrebu ac ymgysylltu.

Gwnaethom hefyd gynyddu ein cyrhaeddiad trwy integreiddio picseli Facebook, rheolwr tagiau Google, MSL a WordPress gyda'i gilydd. Mae hyn yn ein galluogi i arsylwi ymgysylltiad a chynhyrchu cynulleidfaoedd ar gyfer hysbysebu trwy lwyfannau Instagram a Facebook fel ein bod yn cael y



negeseuon cywir i'r bobl iawn. Trwy hyn, rydym wedi cael mewnwelediad gwerthfawr i ymddygiad o amgylch ein hymgyrchoedd hysbysebu a'n gweithgaredd etholiadau, ac mae wedi ein helpu i ymgysylltu â rhai o'n cymunedau llai cysylltiedig mewn ffordd wedi'i thargedu, wedi'i lywio gan wybodaeth.

Mae arweinwyr myfyrwyr ac adborth dysgwyr yn cael effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm

Daethom â'n gwybodaeth a'n harbenigedd ynghyd i gefnogi'r Adolygiad Gwella Ansawdd, gan ddarparu golwg gynhwysfawr gan fyfyrwyr fel rhan o'r broses archwilio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

EIN THEMau

CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU SY'N ARWAIN Y SECTOR

Byddwn yn creu ac yn cefnogi datblygiad gweithgareddau sy'n arwain y sector a gwasanaethau sy'n helpu myfyrwyr i lwyddo.

NOD: Bydd yr Undeb yn sicrhau bod gan fyfyrwyr Caerdydd fynediad i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau gorau, a gydnabyddir am eu hansawdd uchel a'u cysylltiadau â'r profiad myfyrwyr a dysgwyr yn ehangach.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd pan mabwysiadwyd gorsaf reilffordd Cathays. Mae'r orsaf wedi'i lleoli drws nesaf i adeilad Undeb y Myfyrwyr yn Cathays ac mae'n ganolbwynt teithio i fyfyrwyr sy'n cymudo i astudio neu am deithio adref i weld teulu a ffrindiau. Mae mabwysiadu'r orsaf wedi rhoi cyfle inni wneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymuned, a gweithio ar wneud yr orsaf yn borth croesawgar, ffyniannus a hapus i Cathays a champws y Brifysgol.

Rydym hefyd wedi gweithio ar ddatblygu ein hadeilad ein

hunain hefyd. Gwnaed gwelliannau i ardaloedd ar y llawr cyntaf, a gafodd effaith amlwg ar ein gallu i ddarparu digwyddiadau o ansawdd uchel i'n aelodau myfyrwyr ac i'r cyhoedd. Caniataodd y gwelliannau hyn i ni ehangu ein gofodau digwyddiadau, gan ychwanegu 600 o bobl ychwanegol i'n uchafswm niferoedd yn ystod digwyddiadau adeilad gyfan, a darparu bar hamddenol ac ardal gymdeithasol i'w defnyddio yn ystod digwyddiadau cerddoriaeth fyw. Yn ystod y dydd, mae hefyd wedi ychwanegu mwy o le y gellir ei archebu ar gyfer ein grwpiau myfyrwyr, a lle dysgu cymdeithasol ychwanegol i fyfyrwyr sy'n chwilio am le i astudio.

MAE GWEITHGAREDDAU A GWASANAETHAU MYFYRWYR YN CAEL EU DEFNYDDIO GAN DROS 80% OR HOLL FYFYRWYR.

Er gwaethaf y ffaith bod Covid-19 wedi golygu rhoi'r gorau i weithgaredd ym mis Mawrth, roedd ein tîm Rho Gynnig Arni ar drywydd gwyh yn gynharach yn y flwyddyn. Yn ystod Semester yr Hydref, bu cynnydd o 11% mewn ymgysylltiad o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018. Mae hynny'n golygu bod hyd yn



oed mwy o fyfyrwyr yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd neu fynd ar un o'n teithiau gwyh.

Torrodd ein Hundeb Athletaid record drwy gyflwyno 86 tîm (ar draws 19 o chwaraeon) yng nghynghreiriau prynhawn Mercher Prifysgolion Prydain gan ganiatáu i dros 1,100 o fyfyrwyr gynrychioli ein Clybiau Chwaraeon yn wythnosol. Roedd hyn yn arwydd o gynnydd o 5% yn ein ceisiadau tîm ac yn caniatáu i fwy o fyfyrwyr nag erioed gynrychioli eu Clybiau a chael y profiad o deithio ledled y DU yn cystadlu yn erbyn prifysgolion eraill.

Gwelwyd gynnydd yn ymgysylltiad myfyrwyr yn ein gwasanaethau masnachol hefyd. Cynyddodd Gosod Myfyrwyr Caerdydd ymgysylltiad â myfyrwyr 22% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynhaliwyd 15% yn fwy o arddangosiadau tai. Fe wnaethant hefyd gynyddu eu daliad stoc o 10% a oedd yn golygu mwy o ddewis o eiddo i fyfyrwyr gan ei gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i'w cartref perffaith. Yn ogystal â hyn i gyd, anogodd tîm Gosod Myfyrwyr Caerdydd hefyd landlordiaid i uwchraddio ac adnewyddu'r tai sydd ar gael i sicrhau bod safonau ar draws y farchnad myfyrwyr yn codi ac yn ateb disgwyliadau myfyrwyr.

Fe wnaethon ni hefyd helpu mwy o fyfyrwyr i ymlacio a chael hwyl eleni. Gwelodd ein tîm Lleoliadau gynnydd o 5% ym mhresenoldeb myfyrwyr yn ein dwy noson clwb wythnosol, YOLO ar ddydd Mercher a Juice ar ddydd Sadwrn. Roedd

hynny'n golygu bod 108,296 o fyfyrwyr wedi dod i godi'r to cyn i ni orfod cau ein clwb nos ym mis Mawrth. Cynorthwywyd y cynnydd gan y cynnydd yn y lleoliad a ddarparwyd gan ailddatblygiad y llawr 1af.

MAE HEN GANOLFAN Y GRADDEDIGION YN CAEL EI HAIL-AMSUGNO I'R UNDEB.

Roeddem yn falch ein bod wedi llwyddo i gwblhau cyfnewid yr ystafelloedd cyfarfod ar y pedwerydd llawr i gael gofod Canolfan y Graddedigion gyda'r Brifysgol. Yna dymchwelwyd yr hen ystafell TG i Raddedigion, lleoedd astudio a Chaffi Bar ym mis Chwefror i wneud lle ar gyfer ystafelloedd cyfarfod a thoiledau newydd. Yn ystod y cyfnod clo, ymadawyd y Pedwerydd Llawr a pharhawyd â'r gwaith adeiladu ar y Trydydd Llawr, gan adeiladu waliau a gosod y gofod. Bydd y gofod newydd yn darparu saith ystafell gyfarfod fawr a 13 toiled niwtral o ran rhyw, i'w defnyddio gyda'r ystafelloedd cyfarfod a'n lleoliad Y Plas.

DATBLYGU EIN GWEITHGAREDDAU AR-LEIN A CHYFATHREBU DIGIDOL.

Pan ddaeth y pandemig â stop sydyn i'n cynlluniau o fis Mawrth ymlaen, bu adrannau'n gweithio gyda'i gilydd i ail-

drefnu gweithgareddau a gynlluniwyd i fformat rhithwir. Rhai o'r uchafbwyntiau oedd Dawns Gwobrau Rhithwir y Cymdeithasau a'r Undeb Athletaid. Ni oedd Undeb y Myfyrwyr cyntaf i gyflwyno'r rhain a chawsant groeso mawr gan ein myfyrwyr.

Mae ein tîm Cyfleusterau hefyd wedi gweithio'n galed i ddiweddarau pob cyfrifiadur yn yr adeilad i Windows 10 ac Office 2016. O ganlyniad, erbyn hyn mae gan fyfyrwyr sy'n defnyddio'r peiriannau mynediad agored yn y lolfa ac mewn ystafelloedd cyfarfod y feddalwedd ddiweddaraf i'w defnyddio i'w helpu gyda'u hastudiaethau.

BYDD GENNYM BARTNERIAETHAU Â SEFYDLIADAU ALLANOL.

Adeiladodd ein siop Love Cardiff bartneriaeth gydag Adran Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol i ddarparu cynigion a gostyngiadau pwrpasol i Gyn-fyfyrwyr dros fisoedd yr haf. Trwy weithio gyda'r tîm Cyn-fyfyrwyr, rydym wedi rhoi cyfle i fyfyrwyr aros yn gysylltiedig a phrynu nwyddau swyddogol ar ôl graddio.

Fe wnaeth ein gwasanaeth Gwirfoddoli Caerdydd a'r prosiect Bare Necessities ddarparu 500 o fagiau rhodd i Gwpan Pêl-droed Digartrefedd y Byd dros yr haf. Roedd y bagiau anrhegion yn cynnwys eitemau urddas hanfodol gan gynnwys past dannedd brws dannedd, crib, sebon, eli a hufen wyneb i roi rhywfaint o gefnogaeth werthfawr i'r rhai mewn angen.

OUR THEMES

YMGYSYLLTU GYDA'N CYMUNEDAU LLAI CYSYLLTIEDIG

Fe fyddwn yn ymgysylltu gyda Parc y Mynydd Bychan a chymdeithasau myfyrwyr gyda llai o ymgysylltiad fel bod yr Undeb yn golygu rhywbeth i bob myfyriwr Caerdydd.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2019-2020, gweithiodd tîm newydd Parc y Mynydd Bychan i gynyddu ymgysylltiad â myfyrwyr mewn ffyrdd ystyrlon. Roedd hyn yn cynnwys lansio ymgyrch lles 'Positivi-TEA' a ymgysylltodd â 400 o fyfyrwyr, gan roi lle iddynt gwrdd a siarad am eu hiechyd meddwl a sut y gall hyfforddi i fod yn weithiwr proffesiynol meddygol gael effaith ar hyn.

Bu'r tîm hefyd yn dathlu 100 Mlynedd o Nyrsio gyda digwyddiad gyda'r nod o dynnu sylw at esblygiad y nyrs a pham mae llawer o fyfyrwyr yn ymuno â'r proffesiwn. Ymgysylltodd dros 300 o fyfyrwyr â'r gweithgaredd a lwyddodd i ennyn a rhannu straeon go iawn gan fyfyrwyr am eu profiadau fel nyrsys dan hyfforddiant.

Bydd yr Undeb yn parhau i ehangu ei apêl fel bod myfyrwyr o bob cefndir a sefyllfa yn teimlo eu bod yn ymgysylltu, yn cael eu cynrychioli ac yn rhan o'r Undeb.

Un o'r ffyrdd rydym wedi gweithio i gynyddu ymgysylltiad â'n cymuned ymchwilwyr ôl-raddedig yw trwy ein Gwasanaeth Datblygu Sgiliau. Trwy weithio'n agos gyda'r Academi Ddoethurol, mae'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau wedi dod yn ddarparwr hyfforddiant rheolaidd ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig. O ganlyniad, gwelsom gynnydd o 36% mewn ymgysylltiad ymchwil ôl-raddedig â'r Diploma Datblygiad Proffesiynol mewn Arweinyddiaeth.





Mae'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau hefyd wedi bod yn gweithio ar ymgysylltu wedi'i dargedu'n fwy at garfannau penodol, gan gynnwys cyflwyno eu sesiwn gyntaf erioed trwy gyfrwng y Gymraeg ac ymgysylltu â dros 400 o fyfyrwyr sy'n astudio gyda'r Ysgol Biowyddoniaeth mewn hyfforddiant Sgiliau Cyflwyno.

Bydd mwy o fyfyrwyr yn cael eu cyflogi a byddant yn gwirfoddoli i redeg gweithgareddau a gwasanaethau'r Undeb.

Llwyddodd tîm Gwirfoddoli Caerdydd i ailgyflwyno Wythnos RAG ac ymgysylltu â myfyrwyr i wirfoddoli eu hamser mewn gweithgaredd codi arian. Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau i godi arian ac un o'r uchafbwyntiau oedd y Glow Walk mewn cydweithrediad â Cardiff Marrow a oedd â mwy na 50 o fyfyrwyr yn cymryd rhan ac a gododd £175. Gwnaethpwyd hyn yn bosibl diolch i staff weithio'n agos gydag amrywiaeth o gymdeithasau i ailgyflwyno'r fenter werthfawr hon a fydd, gobeithio, yn dod yn ddigwyddiad blynyddol eto.

Mae myfyrwyr mewn meysydd eraill hefyd wedi gwirfoddoli eu hamser i gyflwyno digwyddiadau a chodi arian. Yng Nghyfyngau Myfyrwyr, darlledodd Xpress Radio sioe 24 awr 'Specialist Takeover 2020' a chodwyd £500 ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd.

Yn 2019, cefnogodd ein staff Urdd y Cymdeithasau i greu Varsity Amgen a oedd yn cynnwys rhai o'n grwpiau

myfyrwyr llai ymgysylltiedig. Twrnamaint pythefnos o gystadlaethau yw Varsity Amgen sy'n cynnwys popeth o gemau Quidditch i frwydrau goleuadau a chwisiau. Yn 2020, cynhaliwyd y twrnamaint hwn am yr eildro gyda mwy na 15 o gymdeithasau yn cymryd rhan a diolch i grŵp llywio o aelodau a staff perthnasol y pwyllgor, cyflwynwyd y digwyddiadau yn llwyddiannus a chrëwyd model cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Bydd myfyrwyr yn cymryd rolau cynllunio ystyrlon wrth ddatblygu digwyddiadau mawr a gweithgareddau gyda'r nos.

Bob blwyddyn ym mis Medi, mae Undeb y Myfyrwyr yn croesawu miloedd o fyfyrwyr newydd i Gaerdydd ac yn cyflwyno ystod o ddigwyddiadau, gweithgareddau a chefnogaeth i helpu myfyrwyr i ymgartrefu ac adeiladu cymuned. Er mwyn ein helpu i wneud hyn yn effeithiol, fe wnaeth y tîm Cyngor Myfyrwyr recriwtio 65 o wirfoddolwyr y Tîm Croeso, recordio dros 1,000 o oriau gwirfoddoli a chymryd rhan mewn 7,500 o sgysiau gyda myfyrwyr newydd trwy ein menter 'Siop Sgwrsio'. Fe wnaethant hefyd ddosbarthu 6,500 o Gemau Bwrdd Cyflwyniad i Gaerdydd a pharu 450 o fyfyrwyr newydd gyda chyfeillion fel rhan o'n Cynllun Cyfeillio. Mae Cyngor Myfyrwyr a'n Tîm Lles o fyfyrwyr a staff wedi parhau i ddatblygu'r cyfraniad 'Croeso i Gaerdydd' gyda'r dyhead o annog cymaint o fyfyrwyr â phosibl i mewn i gymunedau cymorth.



EIN GALLUDGWYR

EIN GALLUOGWYR

EIN GALLUOGWYR – POBL

Bydd yr Undeb yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad pobl ac yn sicrhau bod gan ei wirfoddolwyr a'i staff y sgiliau a'r cymwyseddau cywir i gyflawni ei weledigaeth a'i genhadaeth strategol.

Darparodd y Siopswyddi 115,815 awr o waith â thâl hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020, cynnydd o dros 12,500 o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Gweithiodd tîm y Siopswyddi i sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael a helpu i dalu mwy o arian i'n myfyrwyr mewn cyflogau, sy'n cynnig cefnogaeth ariannol bwysig iddynt wrth iddynt astudio.

Hyfforddwyd Pwyllgor Gwaith amrywiol o fyfyrwyr drwy ein rhaglen Rho Gynnig Arni. Gwirfoddolodd y myfyrwyr hyn lawer o oriau i gefnogi gweithgareddau. Roedd y 22 aelod Pwyllgor Gwaith yn cynnwys cymysgedd cryf o fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr ôl-raddedig i gynrychioli'r gynulleidfa amrywiol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Rho Gynnig Arni. Roedd

hyn yn caniatáu mwy o fewnwelediad i anghenion myfyrwyr.

Mae o leiaf 90 o staff gyrfa, staff myfyrwyr a gwirfoddolwyr yn cytuno bod yr Undeb yn lle gwych i weithio.

Mae'r arolwg Best Companies yn cael ei gynnal yn flynyddol i fesur a chydabod rhagoriaeth yn y gweithle. Rydym wedi cymryd rhan yn yr arolwg hwn ers nifer o flynyddoedd ac yn 2020 cafwyd ein cyfradd ymateb uchaf gan staff (93%) a'n sgôr ymgysylltu orau erioed. O ganlyniad i hyn, rydym yn falch ein bod wedi cyflawni achrediad 1* ac wedi cyrraedd y 56fed safle yn 100 sefydliad nid-er-elw gorau'r Sunday Times 2020. Yn





2019, fe gyrhaeddom y 96ain safle felly mae hwn yn gynydd mawr. Fe wnaethom hefyd ymddangos am y tro cyntaf ar restr 30 uchaf y Cwmnïau Gorau i Weithio iddynt yng Nghymru 2020.

Cydnabuwyd ein staff myfyrwyr eleni hefyd gyda 37 o fyfyrwyr wedi'u henwebu ar gyfer Gwobrau Student Employee of the Year Awards, cynnydd o 6 enwebiad yn 2019. Cynhaliodd ein tîm Siop Swyddi ymgyrch barhaus i godi ymwybyddiaeth o'r gwobrau ac i annog staff o'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i enwebu myfyrwyr.

Mae'r Undeb yn cyrraedd lefel tri mewn statws Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi cyflawni Cam 3 Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth, ac roeddem wrth ein bodd ein bod wedi ein rhifo yn 65fed ym mynegai 100 Uchaf y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Amrywiaeth (NCFD) yn 2020. Mae hwn yn welliant o'r 94fed safle yn 2019. Cyfrifir y safleoedd drwy ddefnyddio canlyniadau'r arolwg diagnostig diweddaraf gan bob sefydliad sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y Cynllun Gwobrwyo. Rhoddir ystyriaeth hefyd i lefel cyflawniad pob sefydliad yn erbyn Safonau'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Amrywiaeth ar draws ystod o lefelau achredu.

Mae'r Undeb yn datblygu fframwaith cymhwysedd ar gyfer bob staff a gwirfoddolwr.

Mae ein hadran Adnoddau Dynol yn gweithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â hyfforddiant Iechyd a Diogelwch sefydliadol gorfodol. Yn 2019-20, cyflawnom cyfradd cwblhau 100% ar gyfer staff sydd angen i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol IOSH Managing Safely a chyfradd gwblhau o 89% ar gyfer CIEH H&S.

Rydym hefyd wedi bod yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau. Cwblhaodd 21 o fyfyrwyr y Diploma Datblygiad Proffesiynol trwy ein Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, gyda chynnydd o 33% ar lefel Rhagoriaeth.

EIN GALLUDGWYR

CYLLID

Bydd yr Undeb yn datblygu ei adnoddau ariannol fel y gall ddarparu sylfaen sefydlog i'r sefydliad dyfu

EIN DATBLYGIAD

Datblygu gwargedion o dros £250k y flwyddyn

- Cyflawnwyd ein targed cyllidebol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.
- Cyflawnodd Undeb y Myfyrwyr warged arian parod o £ 334,131 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (31 Gorffennaf 2020) cynhaliwyd dros £ 1.3m wrth gefn, gan gyrraedd ein isafswm targed wrth gefn datganedig hir. Roedd amseriad y cyflawniad hwn yn sylweddol ac yn caniatáu inni gyllidebu ar gyfer diffyg yn 2020-21 wrth inni ymateb i'r golled incwm a achoswyd gan Covid-19.


Datblygu cronfeydd wrth gefn i barhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau a phrosiectau newydd

- Derbyniodd Undeb y Myfyrwyr £1.15 miliwn gan Brifysgol Caerdydd a ganiataodd inni adnewyddu'r ardaloedd ar y 3ydd llawr a gawsom gan y Brifysgol.

Amrywio ffrydiau incwm i fod yn llai dibynnol ar alcohol

- Roedd cyfanswm incwm yr Undeb dros £ 10 miliwn am y tro cyntaf er gwaethaf y ffaith bod masnach wedi ei gyfyngu i saith mis o'r flwyddyn oherwydd y pandemig, yn dilyn derbyn grant ychwanegol gan y Brifysgol.
- Er mwyn amddiffyn ei gyfalaf gweithio, cafodd Undeb y Myfyrwyr fenthyciad busnes i ariannu amnewid ei boeleri gyda gwaith CHP a fydd yn darparu gwres a phŵer mwy effeithlon yn ogystal ag arbedion ariannol ar filiau cyfleustodau.

INCWM



● Grant bloc

● Grantiau/rhoddion eraill

● Ffioedd cyfranogi -
Gweithgareddau Myfyrwyr

● Siopswyddi

● Lleoliadau

● Masnach, Asiantaeth Gosod a
Hysbysebu

● Buddsoddiadau

● Incwm Rhent


● Grantiau Llywodraeth
(CJRS)

BETH YW'R CAMAU NESAF?

Mae Undeb y Myfyrwyr yn disgwyl y bydd angen defnyddio hyd at draean o'i gronfeydd wrth gefn er mwyn ymateb i golli incwm oherwydd pandemig Coronafeirws yn 2020-21.

Mae'r sefyllfa ddigynsail hon wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cronfeydd wrth gefn i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hir Undeb y Myfyrwyr. Felly, byddwn yn parhau i gyllidebu ar gyfer gwarged arian parod i ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd yn ystod 2020-21 ac ymdrechu i gyrraedd ein amcan hir-ddatganedig o ddal £ 1.3 miliwn wrth gefn erbyn 2023.

CRONFEYDD WRTH GEFN



EIN GALLUOGWYR

CYFLEUSTERAU

Bydd yr Undeb yn cwblhau'r ailddatblygiad modern o adeilad yr Undeb.

Yn 2019-20 gwelwyd datblygiad parhaus Undeb y Myfyrwyr ar gampws Cathays. O ailddatblygu'r gofod llawr cyntaf i gyfnewid yr ystafelloedd cyfarfod ar y pedwerydd llawr ar gyfer gofod Canolfan y Graddedigion ar y 3ydd llawr gyda'r Brifysgol, rydym yn dod yn agosach at ein nod o 'ailddatblygu holl fannau cyhoeddus yr adeilad o fewn 10 mlynedd'.

Bydd ystod ehangach o ofodau cymdeithasol, astudio a pherfformio wedi'u datblygu.

Un o'r cyflawniadau mawr eleni oedd y gwelliannau a wnaed i ardaloedd ar lawr cyntaf ein hadeilad. Cafodd hyn effaith amlwg ar ein gallu i ddarparu digwyddiadau o ansawdd uchel i'n myfyrwyr a'r cyhoedd. Galluogodd y gwelliannau hyn i ni ehangu gofodau ein digwyddiadau, gan greu cynydd o 600 o bobl ychwanegol i'n uchafswm niferoedd yn ystod yr holl ddigwyddiadau yn yr adeilad fel ein nosweithiau clwb myfyrwyr, a darparu bar hamddenol ac ardal gymdeithasol i'w defnyddio yn ystod digwyddiadau cerddoriaeth fyw.

Yn ystod y dydd, mae'r ailddatblygiad hwn hefyd wedi ychwanegu mwy o le y gellir ei archebu ar gyfer ein grwpiau myfyrwyr, ac wedi ychwanegu gofod dysgu cymdeithasol ychwanegol i fyfyrwyr sy'n chwilio am le i astudio.

Bydd yr Undeb wedi sefydlu partneriaethau allanol i ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol i'w fyfyrwyr.

Cydweithiodd ein tîm Gweithgareddau â'r adrannau Gyrfaedd a Chyflogadwyedd a Chyfleoedd Byd-eang ym Mhrifysgol Caerdydd ar eu digwyddiad Interniaethau, Profiad Gwaith a Gwirfoddoli blynyddol, eu ffair yrfa flynyddol fwyaf.

Mae cannoedd o gyflogwyr ac elusennau lleol yn mynychu'r digwyddiad hwn i gael stondinau. Mae hyn o fudd i'r myfyrwyr oherwydd bod ganddyn nhw gyfle anhygoel i ddarganfod am, a rhwydweithio gyda, darpar gyflogwyr a chyfleoedd gwirfoddoli. Mae o fudd i'n gwasanaeth Gwirfoddoli Caerdydd oherwydd mae cannoedd o fyfyrwyr yn ei fynychu sy'n darparu arddangosfa wych i'w prosiectau a'u partneriaid.



EIN GALLUOGWYR

TECHNOLEG DDIGIDOL

Bydd yr Undeb yn sicrhau ei fod yn deall pwy yw ei aelodau ac y bydd yn datblygu ei dechnoleg ddigidol.

Fel sefydliad, rydym wedi bod yn gweithio tuag at gynyddu a gwella ein technoleg ddigidol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn dilyn y newidiadau a ddaeth yn sgil Covid-19 ym mis Mawrth 2020, byrhaodd y llinell amser ar gyfer y datblygiadau hyn mewn sawl achos a chawsom ein hunain yn gweithredu fwyfwy mewn amgylchedd o ddefnyddio dulliau digidol gyntaf. Er bod y newidiadau yn annisgwyl, maent wedi arwain at feddwl ac atebion arloesol sydd wedi sicrhau cynnydd cadarnhaol i fyfyrwyr a fydd yn cael eu dwyn ymlaen, hyd yn oed ar ôl i gyfyngiadau gael eu codi yn y dyfodol.

Mae mwy o fyfyrwyr yn ymgysylltu â'r Undeb ar-lein.

Datblygodd ein siop ddillad a nwyddau Caru Caerdydd eu siop ar-lein a'u prosesau newydd i weithredu ledled Covid-19 gan sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i fyfyrwyr a chwsmeriaid. Gwnaethpwyd 860 o archebion ar-lein o dan y broses newydd a oedd yn hynod gadarnhaol i'r siop ac a alluogodd i'n myfyrwyr gyrchu y cynnyrch yr oeddent eu heisiau.

Ym mis Medi 2019, lansiodd ein tîm Lleoliadau ap archebu bwyd newydd. Roedd yr ap yn caniatáu i fyfyrwyr archebu wrth eu byrddau yn nhafarn Y Taf, mewn lleoliadau astudio ac ystafelloedd cyfarfod o amgylch yr adeilad. Helpodd hyn i wella gwasanaeth cwsmeriaid a phrofiad myfyrwyr wrth ymweld ag Undeb y Myfyrwyr i gael bwyd a diod. Yn 19-20, cafodd yr ap ei lawrlwytho 36,510 o weithiau a chyflawnodd 24.95% o'r gwerthiannau, sy'n cyfateb i £129.302.

Cefnogir seilwaith ar-lein yr Undeb a fydd yn golygu ein bod yn fwy effeithlon gydag amser ac adnoddau ariannol.

Gwelodd 2019-20 rai gwelliannau gwych y tu ôl i'r llen. Nid yw'r gwaith hwn bob amser yn weladwy i'n haelodau myfyrwyr ond mae'n helpu staff i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar fyfyrwyr.

Ym mis Mawrth, roedd gan yr Adran Gyfleusterau y dasg fawr o drefnu gweithio o bell i'r holl staff er mwyn caniatáu iddynt

weithio gartref. Roedd yr holl staff wedi eu sefydlu fel y gallent gael gafael ar eu holl feddalwedd a ffeiliau gartref a pharhau i ddarparu gwasanaethau craidd i fyfyrwyr.

Roedd datblygu gwefan Gosod Myfyrwyr Caerdydd yn cynnwys symleiddio'r broses ymgeisio tenantiaeth. Yn ogystal â chynnig llofnodi contractau ar-lein, gallwn nawr dderbyn ID a llwytho dogfennau ategol o fewn y broses ymgeisio. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr sy'n dod o dramor neu rywle arall yn y DU gwblhau'r broses osod yn gyfan gwbl ar-lein heb roi cam i mewn i'n swyddfa byth.

Symleiddiodd y tîm Rho Gynnig Arni eu proses gyflwyno, a arweiniodd at droi eu sesiynau yn gynt o lawer, gan ganiatáu neilltuo mwy o amser i wasanaeth cwsmeriaid yn ystod y broses.

Gweithiodd y Tîm Gwe a Data i ailddatblygu'r fewnrwyd a ddefnyddir gan dimau canolog yn system fodern, hyblyg a llawn nodweddion. Roedd y broses hon hefyd yn gosod materion diogelwch sefydlog yn y fewnrwyd wreiddiol ac arweiniodd at ddatblygu system bolt-on a oedd yn caniatáu creu modiwlau newydd fel system hyfforddi a system cofnodion myfyrwyr.

PARTNERIAETH

Bydd yr Undeb yn gofyn i Brifysgol Caerdydd i fuddsoddi ym mhrofiad y myfyrwyr dros y dair blynedd nesaf fel bod safon addysgu a dysgu a chefnogaeth myfyrwyr yn cael blaenoriaeth.

EIN DATBLYGIAD

Bob blwyddyn, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn cydweithio ar nifer o brosiectau partneriaeth. Mae ffocws y grwpiau hyn yn cael ei arwain gan y Argymhelliaid Ysgrifenedig Myfyrwyr a gynhyrchir gan dîm y Swyddogion Sabothol yn seiliedig ar adborth a gasglwyd gan fyfyrwyr. Mynychir y prosiectau partneriaeth gan staff dethol o'r ddau sefydliad a Swyddogion Sabothol.

PROSIECTAU PARTNERIAETH 2019-20

- Arlwyo
- Cefnogaeth Bugeiliol ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig

- Cludiant a Theithio
- Tasglu Asesu

PROSIECTAU PARTNERIAETH 2020-21

- Cefnogaeth i Fyfyrwyr
- Cymunedau Dysgu
- Cwynion Myfyrwyr



CYLLID

CYFANSWM YR INCWM OEDD

	Cyllid anghyfyngedig Funds 2020	Cyllid cyfyngedig Funds 2020	Cyfanswm cyllid 2020	Cyfanswm cyllid 2019
INCWM GAN:				
Rhoddion a Chymynroddion	2,895,750	1,178,647	4,074,397	2,941,781
Gweithgareddau elusennol	1,960,991	-	1,960,991	2,468,637
Gweithgareddau masnach eraill	3,795,928	-	3,795,928	4,516,928
Buddsoddiadau	5,181	-	5,181	7,541
Incwm arall	444,353	-	444,353	-
Cyfanswm Incwm:	9,102,203	1,178,647	10,280,850	9,934,887
CYFANSWM INCWM:				
Codi arian	7,484,311	-	7,484,311	6,160,460
Gweithgareddau elusennol	3,307,891	31,201	3,339,092	3,771,262
Cyfanswm Gwariant:	10,792,202	31,201	10,823,403	9,931,722
Net (gwariant)/incwm	(1,689,999)	1,147,446	(542,553)	3,165
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	489,306	(489,306)	-	-
Symudiad net mewn cronfeydd	(1,200,693)	658,140	(542,553)	3,165
CYSONI CRONFEYDD::				
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	8,759,985	24,715	8,784,700	8,781,535
Symudiad net mewn cronfeydd	(1,200,693)	658,140	(542,553)	3,165
Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen	7,559,292	682,855	8,242,147	8,784,700

Cyfanswm yr incwm oedd £ 10,280,851 (2019: £ 9,934,883) gyda chyfanswm gwariant o £ 10,823,404 (2019: £ 9,931,722) yn y flwyddyn. Yn gyffredinol, arweiniodd hyn at wariant net o £ 542,553 (2019: incwm net o £ 3,165). Mae hyn yn cynnwys incwm grant cyfyngedig o £1,178,646 a gwariant o £502,507.

CYLLID

MANTOLEN CYFUNOL

	2020 £	2019 £
ASEDAU SEFYDLOG		
Asedau diriaethol	11,987,331	12,409,699
Buddsoddiadau	73,563	73,563
Cyfanswm Asedau Sefydlog	12,060,894	12,123,262
ASEDAU CYFREDOL		
Stociau	129,535	70,786
Dyledwyr	578,763	825,778
Arian yn y banc ac mewn llaw	2,795,037	1,655,788
Cyfanswm asedau cyfredol	3,503,335	2,552,352
CURRENT LIABILITIES		
Credydwyr: symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn	(1,305,907)	(1,593,028)
Asedau net cyfredol/(rhwymedigaethau)	2,197,428	959,324
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol	14,258,322	13,082,586
Credydwyr: a symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(245,833)	
Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau	(5,770,342)	(4,297,886)
Cyfanswm Asedau Net	8,242,147	8,784,700
CRONFEYDD ELUSEN		
Cronfeydd cyfyngedig	682,855	24,715
Cronfeydd anghyfyngedig	7,559,292	8,759,985
Cyfanswm cronfeydd	8,242,147	8,784,700

Ar 31 Gorffennaf 2020, cyfanswm cronfeydd wrth gefn Grŵp yr Undeb (h.y. cronfeydd anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog) oedd £ 1,342,305 (2019: 1,008,172) ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn, i barhau i weithredu trwy Covid-19 ac i ddilyn ei amcanion a'i weithgareddau. Yn ogystal, daliwyd £682,854 (2019: £24,715) pellach mewn cyllidau wedi eu cyfyngu.

Er bod masnach wedi'i chyfyngu i saith mis o'r flwyddyn oherwydd y pandemig, gostyngodd trosiant is-gwmni masnachu'r Undeb i £ 3,795,929 yn unig (2019: £ 4,516,928) gan arwain at elw gros gostyngedig o £ 1,898,978 (2019: £ 2,380,850). Daeth amseriad cau cychwynnol Covid-19 ar ôl cyfnodau prysuraf y flwyddyn y Cwmni, tra bod rhai gweithgareddau masnachu yn gallu parhau, fel Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd. Cynyddodd treuliau gweinyddol i £ 3,924,274 (2019: £ 3,901,420) yn y flwyddyn.

Yn gyffredinol, gwnaeth y cwmni masnachu ddiffyg o £ -1,332,408 (2019: £ -1,256,541). Yn ystod y flwyddyn cynyddodd atebolrwydd pensiwn y cwmni i £ 5,770,342 (2019: £ 4,297,886) yn dilyn canlyniad prisiad tair blynedd y Cynllun. Mae'r diffyg ariannol yn codi o rwymedigaethau dyfodol y cwmni tuag at Gynllun Blwydd-dâl Undeb y Myfyrwyr (SUSS), a gafodd ei gau rhag cronniad pellach yn 2011. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod arian i fodloni rhwymedigaethau i'r gronfa gan eu bod yn ddyledus dros fywyd y cynllun adfer diffyg ariannol hyd at 2035.

YMDDIRIEDOLWYR 2019-20 AC STAFF UWCH

YMDDIRIEDOLWYR SABOTHOL

Llywydd Undeb y Myfyrwyr:

Tomos Evans (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)

Llywydd Undeb y Myfyrwyr:

Jackie Yip (hyd 30ain Mehefin 2020)

IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:

Luke Evans (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)

IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:

Orla Tarn (hyd 30ain Mehefin 2020)

IL Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletaidd:

Jude Pickett

IL Addysg:

Hannah Doe (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)

IL Addysg:

Tomos Evans (hyd 30ain Mehefin 2020)

IL Campws Parc y Mynydd Bychan:

Sebastian Ripley (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)

IL Campws Parc y Mynydd Bychan

Shekina Ortom (hyd 30ain Mehefin 2020)

IL Myfyrwyr Ôl-raddedig:

Jane Chukwu (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)

IL Myfyrwyr Ôl-raddedig:

Nick Fox (hyd 30ain Mehefin 2020)

IL Lles ac Ymgyrchoedd:

Georgie East (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)

IL Lles ac Ymgyrchoedd:

James Wareham (hyd 30ain Mehefin 2020)

YMDDIRIEDOLWYR MYFYRWYR

- Gabriella Gropper (hyd 30ain Mehefin 2020)
- Thomas Mahony-Kelross (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)
- Stephen Oldfield (1af Gorffennaf 2020 ymlaen)
- Daniel Onafuwa (hyd 30ain Mehefin 2020)
- Ryan Singh

YMDDIRIEDOLWYR A ENWEBIR GAN Y BRIFYSGOL

- Jayne Sadgrove
- Ray Singh CBE

YMDDIRIEDOLWYR ALLANOL

- Natasha Applasamy (wedi 23ain Ebrill 2020)
- Dick Roberts OBE Dick Roberts OBE
- Bethan Walsh

SWYDDFA GOFRESTREDIG:

- Plas y Parc, Caerdydd, Cymru CF10 3QN
- Rhif Cwmni Cofrestredig: 07328777
- Rhif Elusen Cofrestredig: 1137163

UWCH AELODAU O STAFF

Prif Weithredwr:

Daniel Palmer

Dirprwy Brif Weithredwr:

Ben Eagle

Cyfarwyddwr Cyllid:

Christine Akers

Cyfarwyddwr Cyfathrebu:

Raechel Matthey

Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogiad:

Steve Wilford